Ysgolion Awyr Agored Sir Benfro
Tasgau Cyfoethog

Ardal: Y Traeth **Amcan Dysgu: Creu pictogram ar y traeth**	**Grŵp Blwyddyn y CC: Blwyddyn 2**

Maes Dysgu: Mathemateg/Rhifedd

Rhaglen Astudio Mathemateg

Datblygu Ymresymu Rhifyddol

Adnabod prosesau a chysylltiadau

- Trosglwyddo sgiliau mathemategol i weithgareddau chwarae a'r ystafell ddosbarth
- Defnyddio gwybodaeth a phrofiad ymarferol yn sail wrth amcangyfrif.

Cynrychioli a chyfathrebu

- Defnyddio ieithwedd arferol ac ieithwedd fathemategol i siarad am eu syniadau a'u dewisiadau eu hunain
- Cyflwyno'u gwaith ar lafar, ar ffurf llun ac yn ysgrifenedig, a defnyddio amrywiaeth o ffyrdd i gyflwyno data a gasglwyd.

Adolygu

- Dehongli gwybodaeth a gyflwynir ar ffurf siartiau a diagramau a dod i gasgliadau priodol.

Defnyddio sgiliau data

- Casglu a chofnodi data o restrau a thablau, diagramau, graffiau bloc, pictogramau lle bo'r symbol yn cynrychioli un uned
- Echdynnu a dehongli gwybodaeth o restrau, tablau, diagramau a graffiau

Pennawd/Addas i Blant

Heddiw, rydym ni'n mynd i fod yn helwyr trysor ar y traeth – pwy all ddarganfod y trysor mwyaf cyffrous?

Meini Prawf Llwyddiant

- Gweithiwch yn eich grŵp i gasglu trysorau ar y traeth.
- Didolwch eich trysorau a lluniadu siart cyfrif yn y tywod.
- Crëwch bictogram ar y tywod gyda'ch trysorau, a thynnu ffotograff.
- Gofynnwch/atebwch gwestiynau am y pictogram gyda'ch partner.

Beth i'w wneud:

- Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach gyda chynorthwyydd cymorth dysgu/athro.
- Trafodwch beth allen ni ei ddarganfod ar y traeth – siaradwch am beidio â chyffwrdd ag unrhyw fywyd môr a sbwriel siarp/pethau sydd wedi torri.
- O'r drafodaeth, gofynnwch i bob grŵp gasglu cymaint o ddeunydd ag y gallant o'r traeth (e.e. broc, cregyn, gwymon) mewn 5 munud. Bydd pob grŵp yn gyfrifol am gasglu un deunydd. Dosbarthwch y bagiau plastig.
- Gosodwch y cloc ar yr iPad/stopwats – chwythwch y chwiban i ddechrau a'i chwythu eto i alw pawb yn ôl, gydag arweinydd eu grŵp.
- Yn eu grwpiau bychain, edrychwch ar eu darganfyddiadau. Cyfrifwch eu deunydd o'r traeth, fesul 5. Arweiniwch ymlaen at greu siartiau cyfrif yn y tywod. Cofnodwch y rhif. Tynnwch ffotograffau.
- Dewch â phawb yn ôl at ei gilydd fel dosbarth cyfan a'u gosod i eistedd fesul grŵp, mewn cylch mawr fel dosbarth.
- Trafodwch y darganfyddiadau. Faint o froc wnaethoch chi ei ddarganfod?, ac ati.

Cymharwch y canlyniadau. Pwy wnaeth ddarganfod y mwyaf? Y lleiaf? Beth yw'r gwahaniaeth? Faint gafodd ei ddarganfod yn gyfan gwbl?

- Gyda chymorth, gallai'r plant mwy abl a thalentog farcio'r ardal yn y tywod gwlyb. (wrth i'r drafodaeth am y cyfanswm fynd yn ei flaen)
- Arweiniwch ymlaen at greu pictogram ar raddfa fawr. Tynnwch ffotograffau.
- Beth ydym ni wedi'i ddysgu? Beth mae'r pictogram yn ei ddangos? Anogwch ddefnyddio geirfa fel 'y mwyaf poblogaidd', 'y lleiaf poblogaidd' ac ati. Anogwch y plant i ddod o hyd i'r gwahaniaeth.
- Yn gysylltiedig ag ymresymu *dewiswch fathemateg a thechnegau priodol i'w defnyddio.*
- Gyda'r disgyblion mwy abl a thalentog, ymestynnwch y gweithgaredd drwy holi, er enghraifft '*os byddem ni'n dyblu…' 'haneru', faint fydd gennym ni pe bydden ni'n dod o hyd i lawer mwy/lawer llai?'*
- Syniad ar gyfer gweithgaredd dilynol – defnyddio TGCh i gyflwyno'r canfyddiadau, fel 2count (meddalwedd 2simple), J2e ar yr HWB.

Ymresymu.

Dewis mathemateg a thechnegau priodol i'w defnyddio.
Gallwch chi esbonio beth rydych chi'n ei wneud a pham?
Pam rydych chi'n dewis ….
Beth ydym ni'n ei wybod am ddidoli, sy'n gallu'n helpu ni?
Trafodwch pa labeli sy'n gallu cael eu defnyddio ar gyfer yr echelinau.

Cyflwyno gwaith ar lafar, ar ffurf llun ac yn ysgrifenedig, a defnyddio amrywiaeth o ffyrdd i gyflwyno data a gasglwyd.

Dehongli gwybodaeth a gyflwynir ar ffurf siartiau a dod i gasgliadau priodol.

- Anogwch y plant i ofyn cwestiynau a defnyddio'r pictogram i ateb.

Ymestyn: Cerdyn adnabod o 'drysorau' o'r traeth, gyda labeli.
Gallech greu tabl yn trefnu trysorau yn rhai naturiol ac yn rhai gwneud, a thrafod sut i leihau llygredd, ac ati.

Adnoddau:

- Bagiau plastig
- Chwiban
- iPad/stopwats
- Camera
- Copi wedi'i lamineiddio o'r meini prawf llwyddiant/tasg ar gyfer y cynorthwyydd cymorth dysgu/yr athro